OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 2413 (Cy.207) (C.118)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - - 30 Medi 2010

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 269(3), (7) ac (8) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2010.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "Atodlen 12" ("*Schedule 12*") yw Atodlen 12 i Ddeddf 2009 ac ystyr "Atodlen 16" ("Schedule 16") yw Atodlen 16 i Ddeddf 2009;

ystyr "Deddf 1997" ("*the 1997 Act*") yw Deddf Addysg 1997(**2**);

ystyr "Deddf 2009" ("*the 2009 Act*") yw Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009;

ystyr "y diwrnod penodedig" ("*the appointed day*") yw 1 Tachwedd 2010 ac eithrio mewn perthynas ag erthygl 2(c) ac (ch) pan mai 1 Hydref 2010 yw ei ystyr.

Y Diwrnod Penodedig

2. Daw'r darpariaethau canlynol i rym ar y dyddiad penodedig—

(a) adrannau 174 a 192 o Ddeddf 2009 i'r graddau y maent yn ymwneud â pharagraffau 11, 13 a 27 o Atodlen 12 (i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru); paragraffau 14 i 19 a 29 o Atodlen 12; a'r cofnodion cysylltiedig yn Atodlen 16;

(b) adran 266 o Ddeddf 2009 i'r graddau y mae'n ymwneud—

(i) â'r diddymiadau canlynol a bennir yn Rhan 4 o Atodlen 16:

(a2) adran 30(1C), (1D), (2) a (6) o Ddeddf 1997;

(b2) adran 32(4A) o Ddeddf 1997;

(c2) adran 32A(6) o Ddeddf 1997;

(**1**) 2009 p. 22.
(**2**) 1997 p. 44.

(ch2) paragraff 5(6) o Atodlen 17 i Ddeddf Addysg 2002(**3**);

(d2) adran 162(2) i (5) o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008(**4**);

(ii) â'r diddymiadau neu'r dirymiadau canlynol a bennir yn Rhan 4 o Atodlen 16 i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru:

(a2) adrannau 21 i 26A o Ddeddf 1997;

(b2) paragraff 214 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**5**);

(c2) adran 103(2) a (3) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**6**) a pharagraff 69 o Atodlen 9 iddi;

(ch2) yn adran 216(2) o Ddeddf Addysg 2002, y geiriau "paragraphs 1 to 4 and 9 of Schedule 17, and section 189 so far as relating to those paragraphs,";

(d2) paragraffau 1 i 4 a'r pennawd mewn sgript italig o flaen paragraff 1 o Atodlen 17 i Ddeddf Addysg 2002;

(dd2) paragraff 69 o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002;

(e2) paragraff 7 o Atodlen 1 i Orchymyn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Awdurdod) 2005(**7**);

(f2) paragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Gofal Plant 2006(**8**) a'r pennawd mewn sgript italig sy'n dod o'i flaen;

(ff2) paragraff 21 o Atodlen 14 i Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006(**9**);

(g2) adrannau 161 ac 163 o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008;

(c) adran 259 o Ddeddf 2009;

(ch) y diddymiad a bennir yn Atodlen 16 yn adran 76(1)(b) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**10**) sef diddymu'r geiriau "in England".

Cydnabyddiaeth mewn cysylltiad â dyfarnu cymwysterau neu eu dilysu

3.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys os cydnabyddir person (neu os caiff ei drin fel pe cydnabyddir ef), yn union cyn y diwrnod penodedig, gan Weinidogion Cymru o dan adran 30(1)(cb) o Ddeddf 1997(**11**), a'i fod yn dyfarnu neu'n dilysu cymhwyster sy'n cael ei achredu gan Weinidogion Cymru o dan adran 30(1)(e) o Ddeddf 1997.

(2) Yn effeithiol o'r diwrnod penodedig ymlaen, bernir bod y person yn cael ei gydnabod gan Weinidogion Cymru o dan adran 30(1)(e) o Ddeddf 1997 mewn cysylltiad â dyfarnu neu ddilysu'r cymhwyster hwnnw neu'r disgrifiad hwnnw o gymhwyster.

(**3**) 2002 p.32.
(**4**) 2008 p. 25.
(**5**) 1998 p. 31.
(**6**) 2000 p. 21.
(**7**) O.S. 2005/3239 (Cy. 244).
(**8**) 2006 p. 21.
(**9**) 2006 p. 40.
(**10**) 1992 p.13. Mewnosodwyd adran 76(1)(b) gan Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddiant 2007 (p.25) adran 19(2).
(**11**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Awdurdod) 2005 (O.S. 2005/3239). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(a) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).